
Prosiect X

# Antur Cefnfor Iwerydd



Michael Perham
Alex Lane

DRAKE

# Antur Cefnfor Iwerydd

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Torri record! | 2 |
| Dysgu hwylio | 4 |
| Cheeky Monkey | 6 |
| Taith Michael | 8 |
| Pacio | 10 |
| Dechrau'r daith | 12 |
| Gwynt a thonnau | 14 |
| Beth i'w weld ar y môr | 16 |
| Bywyd ar y cwch | 18 |
| Gorffwys ac ymlacio | 20 |
| Diwedd yr antur | 22 |
| Geirfa/Mynegai | 24 |




**Michael Perham ac Alex Lane**

**Lluniau'r cymeriadau gan Jon Stuart**

# Torri record!

Ar Ionawr y 3ydd 2007, torrodd Michael Perham record byd!
Fe oedd y person ifancaf i hwylio Cefnfor Iwerydd ar ei ben ei hun.
Doedd e ddim ond 14 oed.
Cymerodd dros 6 wythnos iddo.
Hwyliodd dros 4700 o filltiroedd.





Michael ar ei gwch.

# Dysgu hwylio

Dechreuodd Michael hwylio pan oedd yn 6 oed. Cafodd ei ddysgu gan ei dad. Dechreuodd drwy hwylio cychod bach.




Michael a'i dad, Peter.




Michael yn dysgu rhwyfo. Ei fam yn gwylio.

Yn 2003, hwyliodd bachgen 15 oed ar draws Cefnfor Iwerydd ar ei ben ei hun. Roedd hyn yn record byd newydd. Roedd Michael am dorri'r record.
Dechreuodd Michael ymarfer ar gyfer ei daith *yntau* ar draws Cefnfor Iwerydd. Bu'n ymarfer am dros flwyddyn a hwyliodd lawer milltir.

**Blwch ffeithiau Michael**

| | |
|---|---|
| Pryd ganed Michael? | Mawrth 16eg, 1992 |
| Ble mae'n byw? | Swydd Hertford, Lloegr |
| Beth yw ei ddiddordebau? | • Unrhyw beth yn ymwneud â dŵr a hwylio<br>• cerddoriaeth<br>• chwarae'r drymiau<br>• sgïo<br>• neidio beic. |



## Cheeky Monkey

Roedd Michael angen cwch da i'w siwrnai hir. Defnyddiodd *Tide 28*.

Helpodd i'w gynllunio. Dewisodd yr enw *Cheeky Monkey*.




Roedd *Cheeky Monkey* yn gwch bach, cyflym. Roedd wedi ei wneud o ddefnyddiau ysgafn, cryf fel y medrai arnofio'n rhwydd ar ben y tonnau.



# Taith Michael

Dechreuodd Michael ei daith yn Gibraltar. Yn gyntaf hwyliodd i lawr arfordir Affrica. Yna hwyliodd allan i'r môr agored. Arhosodd ddwywaith ar y daith. Hwyliodd tad Michael mewn cwch gerllaw rhag ofn iddo fynd i drybini.



Gorffennodd Michael yn Antigua. Roedd y daith yn fwy na 4700 o filltiroedd morwrol. Mae milltir forwrol ychydig yn hirach na milltir ar y tir.

## Blwch ffeithiau

Milltir ar dir: 1.6 cilometr

Milltir forwrol: 1.8 cilometr



# Pacio

Does dim dŵr glân ar y môr. Roedd rhaid i Michael wneud yn siŵr fod digon ganddo am yr holl daith.




Aeth Michael hefyd â llawer o fwydydd tun. Y bwydydd a welodd eu heisiau fwyaf oedd tost cynnes a pizza.




Gallai fod yn oer iawn yn y nos. Roedd rhaid i Michael wneud yn siŵr fod ganddo ddillad cynnes. Weithiau byddai'r tonnau'n gwlychu Michael. Roedd yn anodd cadw'n sych!

# Dechrau'r daith


Ar ôl blwyddyn o baratoi roedd Michael yn barod i hwylio.
Yn ystod y daith cadwodd Michael **blog**.
Felly, medrai pobl eraill ddilyn ei antur ar y Rhyngrwyd.




Michael a'i dad yn gwneud archwiliad munud olaf cyn cychwyn!

## Rhan o flog Michael: Tachwedd y 18fed, 2006

Gadawsom am 1pm. Roedden ni'n mynd i adael ychydig ynghynt ond arhoson ni i'r gwynt godi. Rydym mor gyffrous. Mae fy nhad mor falch ohona i!



Golwg ar Gefnfor Iwerydd o gefn y *Cheeky Monkey*.

# Gwynt a thonnau

Mae angen gwynt ar longau hwylio i'w symud. Mae gwynt yn llanw'r **hwyliau** ac yn gwthio'r cwch ymlaen. Pan nad oedd gwynt, byddai cwch Michael yn drifftio o amgylch heb fynd ymhell.

Mae gwyntoedd ysgafn yn golygu hwylio llyfn.



Ar adegau eraill, byddai'r gwynt yn gryf iawn. Hyrddwynt oedd hynny. Roedd yn achosi tonnau mawr. Roedd rhai dros 7 metr o uchder. Lwcus nad ydy Michael yn dioddef salwch môr!

Mae tonnau mawr yn dda ar gyfer syrffio!




# Beth i'w weld ar y môr

Efallai eich bod yn tybio nad oes dim i'w weld ar y môr. Ond gwelodd Michael lawer o bethau...

**Rhan o flog Michael: Rhagfyr y 4ydd, 2006**

Gwelais arddangosfa wych o ddolffiniaid cyn y machlud. Roedden nhw gyda'r cwch am o leiaf 2 awr. Roedden nhw'n neidio i'r awyr a bod yn chwareus. Gwnaeth un dolffin naid uchel o ben ton. Roedd yn rhyfeddol.




Llun a dynnodd Michael o ddolffin.


## Rhan o flog Michael: Rhagfyr yr 16eg, 2006

Neidiodd pysgodyn hedegog i mewn i ’**nghaban llywio** heddiw. Dywedodd ’nhad ei fod wedi gweld siarc mawr yn ei ddilyn pan oeddem ni’n drifftio o amgylch. Roedd tua 4 metr o hyd! Digon i godi ofn. Dwi’n falch na neidiodd hwnnw i mewn i ’nghaban llywio!



# Bywyd ar y cwch

Roedd Michael a'i dad yn hwylio i'r un cyfeiriad ond yn aml roedden nhw ymhell oddi wrth ei gilydd. Unwaith welodd Michael mo gwch ei dad am dri diwrnod! Roedden nhw'n  cadw mewn cysylltiad drwy ffôn **lloeren** a radio.




Radio'r *Cheeky Monkey*.




Roedd gan Michael lawer o swyddi ar y cwch.

**EI SWYDDI:**

* hwyliwr
* llywiwr
* cogydd
* glanhawr
* trwsiwr

## Gorffwys ac ymlacio

Dydy hi ddim yn hawdd cael noswaith dda o gwsg pan rydych chi'n hwylio ar eich pen eich hun. Dim ond am amser byr y medrai Michael orffwys bob tro. I ymlacio byddai'n gwrando ar fiwsig a darllen llyfrau. Byddai hefyd yn chwarae gêmau dros y radio gyda'i dad.




Roedd Michael yn gweld eisiau ei ffrindiau. Roedd e'n unig ambell waith. Wrth iddo agosáu at ddiwedd yr antur, dechreuodd gyfrif y milltiroedd a'r oriau oedd ar ôl. Edrychai ymlaen at bryd da o fwyd a gwely solet!



# Diwedd yr antur

Pan gyrhaeddodd Michael Antigua o'r diwedd, roedd yn flinedig iawn ond yn hapus. Cafodd groeso mawr. Daeth tua 2000 o bobl i'w gyfarfod!




**Rhan o flog Michael: Ionawr y 3ydd, 2007**

Wrth i ni fynd i mewn i'r harbwr roedd o leia 50 o gychod bach yn ein dilyn. Roedden nhw'n canu eu cyrn ac yn dweud da iawn. Roedd yn rhyfeddol. Roedd y cychod mawr yn canu eu cyrn hefyd ac roedd baneri'n chwifio. Roedd yn ffantastig.

Nawr mae Michael am fod y person ifancaf i hwylio o amgylch y byd. Edrychwch allan amdano yn y newyddion neu ddilyn ei flog.

*Ewch at wefan Michael*
*www.sailmike.com*




Michael yn cyrraedd Antigua!

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **blog** | dyddiadur ar lein |
| **caban llywio** | rhan o'r cwch lle mae'r hwyliwr yn ei lywio. |
| **hwylbren** | polyn uchel i ddal yr hwyliau |
| **hwyl** | darn mawr o ddefnydd cryf sy'n gwthio'r cwch ymlaen pan mae'r gwynt yn ei llenwi |
| **lloeren** | llong ofod sy'n symud o amgylch y Ddaear ac yn anfon signalau i lawr iddi |

# Mynegai


Cefnfor

Iwerydd 2, 5, 8, 13

dolffiniaid 16

siarc 17

hwyliau 7, 14

hyrddwynt 15

gwynt 14-15